Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN DATBLYGU
GWASANAETH ECONOMI AC ADFYWIO
SWYDDFA R CYNGOR
CAERNARFON
GWYNEDD
LL55 1SH

Dyddiad: 29/04/2026

Annwyl CYNGOR GWYNEDD,

Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â/ag FCERM - Grant Cyfalaf 2023/24 - Barmouth North Prom FAS - Dyluniad Manwl a/neu Achos Busnes Llawn (FBC)

1. Dyfarnu Cyllid

(a) Mae'n bleser eich hysbysu bod eich Cais wedi bod yn llwyddiannus, a bod cyllid o hyd at £3,180,626.41 (y "**Cyllid**") wedi'i ddyfarnu ichi ar gyfer y Dibenion.

(b) Mae'r Cyllid yn ymwneud â'r cyfnod o 13/06/2023 i 31/05/2026 ac mae'n rhaid ei hawlio'n flynyddol yn llawn yn unol â'r amserlenni a osodir yn y Proffil Taliadau Dynodedig, gan i bob cyfnod blynyddol gyfrif fel Cyfnod wedi'i Ariannu. Os methwch â hawlio'r Cyllid yn flynyddol yn llawn yn unol â'r amserlenni a osodir yn y Proffil Taliadau Dynodedig, bydd unrhyw ran o'r Cyllid blynyddol nad yw wedi'i hawlio yn peidio â bod ar gael ichi.

(c) Bydd methu â hawlio'r Cyllid o fewn y Cyfnod Argaeledd yn golygu y bydd yn peidio â bod ar gael ichi.

(d) Bydd y llythyr hwn yn effeithiol o'r dyddiad diweddaraf y byddwch yn ei lofnodi i ddangos eich bod yn ei dderbyn ar y dudalen dderbyn isod. Bydd y llythyr hwn yn effeithiol o'r dyddiad diweddaraf y byddwch yn ei lofnodi i ddangos eich bod yn ei dderbyn ar y dudalen dderbyn isod.

(e) Mae i dermau â phriflythyren a ddefnyddir yn y llythyr hwn yr ystyr a roddir iddynt yn Amod 3 isod.

(f) Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch y llythyr hwn neu'r Amodau, cysylltwch â Swyddog Llywodraeth Cymru a fydd yn barod iawn i'ch helpu.

[redacted]

2. Awdurdod statudol a Rheoli Cymorthdaliadau

(a) Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn ar sail yr Amodau ac yn ddarostyngedig iddynt, ac o dan awdurdod y Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru, sy'n gweithredu yn unol â swyddogaethau a drosglwyddwyd o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 16(2) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

(b) Rhaid ichi sicrhau bod y Cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gyson â Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022 a'r cytundebau perthnasol yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n ymwneud â Phrotocol y DU a Gogledd Iwerddon.

3. Dehongli'r llythyr hwn

(a) Yn y llythyr hwn, bydd i'r termau a ganlyn yr ystyron a ganlyn:

'Amodau'	y telerau ac amodau a nodir yn y llythyr hwn, gan gynnwys ei Atodlenni;
'Ased a Ariennir'	unrhyw adeilad, adeiladu newydd, tir, estyniadau ac addasiadau i adeiladau presennol neu bryniant unrhyw ased sefydlog arall (h.y. peirianwaith, peiriannau, cyfarpar a cherbydau) sydd ag oes weithio ddisgwyliedig o fwy na blwyddyn, ond dim ond pan fydd eu caffael neu eu creu yn cael ei ariannu (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gan y Cyllid neu pan mai diben datganedig y Cyllid yw ariannu cost gyfan neu rannol atgyweirio, adnewyddu neu fel arall wella'r ased. At ddibenion y llythyr hwn, rhoddir gwybodaeth am yr Ased a Ariennir yn Atodiad 1.
'Atodlen'	yr atodlen berthnasol sy'n atodedig i'r llythyr hwn;
'Cais'	eich FCERM - Grant Cyfalaf 2023/24 cyfeirnod [redacted];
'Costau a Ysgwyddwyd'	y gost ichi ar gyfer nwyddau a/neu wasanaethau yr ydych wedi ymrwymo i'w cael ni waeth a fyddwch wedi talu amdanynt erbyn dyddiad eich hawliad;
'Costau a Ysgwyddwyd ac a Dalwyd'	y gost ar anfoneb ar gyfer nwyddau a/neu wasanaethau y byddwch wedi'u cael ac y byddwch wedi talu amdanynt ag arian wedi'i glirio erbyn dyddiad eich hawliad;
'Cyfnod Argaeledd'	y cyfnod a bennir yn Amod 1(b);
'Cyfnod Ariannu'	yr ystyr a roddir i'r term hwnnw yn Amod 1(b);
'Cyfnod Perchnogi Asedau	Caiff hyn ei fannylu yng Atodlen 1. Mae'r cyfnod o

[redacted]

a Ariennir'	ddiwedd y Cyfnod Ariannu;
'Cyfrif'	y cyfrif banc a agorwyd ac a gynhelir gennych gyda banc clirio yn y DU – cyfrif sydd yn eich enw eich hun a dim ond chi sydd â'r hawliau llofnodi ar ei gyfer neu gyfrif arall o'r fath y gallwn ei gymeradwyo'n ysgrifenedig at ddiben yr Amodau ac yn ôl ein disgresiwn absoliwt o bryd i'w gilydd;
'Cyllid'	yr ystyr a roddir i'r term hwnnw yn Amod 1(a);
'Cyllid Cyfatebol'	unrhyw Gyllid a ddyfarnwyd yn amodol gennym ar y sail bod sefydliad arall yn darparu cyllid arall ichi, ni waeth a yw'n ddibynnol ar y Cyllid ai peidio;
'Cyllidwr/Cyllidwyr Cyfatebol'	unrhyw unigolyn neu sefydliad (a) sy'n darparu cyllid dibynnol ichi ar yr amod ein bod yn dyfarnu Cyllid ichi, neu (b) lle'r ydym yn darparu cyllid dibynnol ichi ar yr amod ei fod yn dyfarnu cyllid ichi;
'chi', 'eich'	yw i CYNGOR GWYNEDD, CYFADRAN DATBLYGU, LL55 1SH
'Datganiad Sicrwydd'	y Datganiad Sicrwydd: gweithdrefnau gwrth-dwyll a llywodraethiant yn Atodlen 6, os yn berthnasol;
'Dibenion'	y dibenion a nodir yn Atodlen 1;
'Digwyddiad Hysbysadwy'	unrhyw ddigwyddiad a restrir yn Atodlen 3;
'Diwrnod Busnes'	diwrnod heblaw am ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus statudol yng Nghymru a/neu Loegr;
'Dyddiad Argaeledd Terfynol'	y dyddiad a nodir yn Amod 1(b);
'Gwaredu'	gwaredu, gwerthu, lesio neu drosglwyddo Ased a Ariennir, unrhyw ran ohono neu unrhyw fuddiant mewn unrhyw Ased a Ariennir gan gynnwys unrhyw gontract i'w waredu;
'ni', 'ein'	Gweinidogion Cymru;
'Personél'	eich cyfarwyddwyr, eich swyddogion, eich cyflogeion, eich contractwyr, eich is-gontractwyr a'ch cyflenwyr neu unrhyw berson arall a benodir neu a gymerir ymlaen gennych mewn perthynas â'r Dibenion;
'Proffil Taliadau Dangosol'	y proffil taliadau dangosol a nodir yn Atodlen 4; lle'n berthnasol.
'Rheolwr Prosiect'	yr unigolyn a enwebir gennych i fod yn gyfrifol am reoli'r Cyllid o ddydd i ddydd ac i fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Swyddog Llywodraeth Cymru;
'Rhestr Sancsiynau'	unrhyw un neu ragor o'r rhestrau a ddyroddir neu a gynhelir gan y DU a'r Cenhedloedd Unedig, ac ym mhob achos eu sefydliadau, eu hasiantaethau, eu

[redacted]

	hadrannau a'u hawdurdodau llywodraethol, barnwrol neu reoleiddiol, sy'n dynodi neu'n nodi personau sy'n destun sancsiynau, ym mhob achos fel y'u diwygir, yr ychwanegir atynt neu y'u disodlir o bryd i'w gilydd, gan gynnwys Rhestr Sancsiynau'r DU, Rhestr Gyfunol Targedau Sancsiynau Ariannol yn y DU a Rhestr Gyfunol Sancsiynau Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig;
'Swyddog Llywodraeth Cymru'	[redacted] Is-adran Dŵr a Llifogydd Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: [redacted] E-bost: [redacted]
'Targedau'	y targedau a nodir yn Atodlen 2;

(b) Mae unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth unrhyw awdurdodaeth yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac amnewidiadau i'r ddeddfwriaeth honno, a'r holl ailddeddfiadau ohoni, a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

(c) Bernir y daw'r geiriau 'heb gyfyngiad' yn syth ar ôl y geiriau 'gan gynnwys' a 'cynnwys'.

4. Defnyddio'r Cyllid

(a) Rhaid ichi ddefnyddio'r Cyllid at y Dibenion a nodir yn Atodlen 1, ac at y Dibenion hynny yn unig.

(b) Rhaid ichi gyflawni'r Targedau a'r canlyniadau a nodir yn Atodlen 2 os yn berthnasol.

(c) Os bydd angen gwneud unrhyw newid i'r Proffil Taliadau Dangosol, y Dibenion neu'r Targedau, bydd angen ichi gael ein cydsyniad ysgrifenedig cyn gweithredu unrhyw newid. Nodwch nad oes rhaid inni roi ein cydsyniad, ond byddwn yn ystyried pob cais ysgrifenedig yn ôl ein disgresiwn absoliwt.

(d) Ni chaniateir ichi ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni yn unig, ddwyn anfri arnom, gan gynnwys: (1) dibenion gwleidyddiaeth plaid, (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol, (3) gamblo, (4) pornograffi neu gynnig gwasanaethau rhywiol, neu (5) unrhyw weithgaredd anghyfreithlon.

(e) Ni chaniateir ichi ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid: (1) i ariannu, yn llawn neu'n rhannol, gaffael, creu neu wella'n sylweddol unrhyw asedau gan gynnwys unrhyw adeilad,

[redacted]

adeiladu newydd, tir, estyniadau ac addasiadau i adeiladau presennol neu bryniant unrhyw ased sefydlog arall (h.y. peirianwaith, peiriannau, cyfarpar a cherbydau) sydd ag oes weithio ddisgwyliedig o fwy na blwyddyn (ac eithrio Asedau a Ariennir a nodir yn benodol yn y Dibenion), (2) ar gyfer ffioedd cyfreithiol sy'n daladwy gennych mewn perthynas â'ch Cais neu'r llythyr hwn, na (3) ar gyfer Costau a Ysgwyddwyd neu Gostau a Ysgwyddwyd ac a Dalwyd gennych cyn y Cyfnod Argaeledd.

5. Rhagamodau'r Cyllid

(a) Ni fyddwn yn talu unrhyw Gyllid ichi hyd nes eich bod wedi derbyn y llythyr hwn ar eich Cyfrif RPW Ar-lein ac wedi darparu'r wybodaeth a'r ddogfennaeth ganlynol i ni:

i) tystiolaeth ddogfennol eich bod wedi trefnu bod yr holl staff ac adnoddau eraill y rhoddir manylion amdanynt yn y Cais yn eu lle fel sy'n ofynnol er mwyn dechrau a chwblhau'r Dibenion lle bo'n berthnasol:
ii) y Datganiad Sicrwydd wedi'i gwblhau lle mae'n berthnasol
iii) unrhyw wybodaeth, dogfen, barn neu sicrwydd arall yr ydym wedi gofyn amdani/ amdano yr ydym yn ystyried sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol mewn cysylltiad â'r dyfarniad Cyllid hwn neu'r Dibenion, neu mewn cysylltiad ag ymgymryd â'r dyfarniad Cyllid hwn, ei gyflawni, ei ddilysrwydd neu ei orfodadwyedd.

(b) Pan fydd angen ichi ddarparu unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennau inni fel tystiolaeth eich bod wedi bodloni rhagamod neu Amod benodol neu fel arall i ategu hawliad, rhaid i'r wybodaeth a/neu'r dogfennau fod yn dderbyniol inni o ran ffurf a sylwedd. Yr ydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth/dogfennau sydd, am unrhyw reswm, yn annerbyniol inni, a/neu ofyn am unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennau pellach neu ychwanegol i gefnogi'r cais am Gyllid.

.

6. Sut i hawlio'r Cyllid

(a) Cewch hawlio'r Cyllid mewn ôl-daliadau yn seiliedig ar y Costau a Ysgwyddwyd gennych wrth gyflawni'r Dibenion fel y manylir yn y Proffil Taliadau Dangosol.

(b) Rhaid ichi hawlio'r Cyllid yn unol â'r dyddiadau a nodwyd yn y Proffil Taliadau Dangosol. Rhaid ichi hawlio'r Cyllid yn brydlon ac o fewn y Cyfnod Argaeledd. Rydyn ni'n cadw'r hawl i dynnu'n ôl unrhyw ran o'r Cyllid na fyddwch wedi'i hawlio o fewn y Cyfnod Argaeledd.

(c) Rhaid ichi gyflwyno eich hawliadau ar gyfer talu'r Cyllid drwy eich Cyfrif RPW Ar-lein. Rhaid ichi ddefnyddio'r hawliad sydd ar gael ar eich Cyfrif Ar-lein RPW a chyflwyno unrhyw ddogfennau y gofynnwyd amdanyn nhw:

i) cadarnhad eich bod yn gweithredu ym mhob ffordd yn unol â'ch cyfansoddiad; a
ii) cadarnhad bod gennych systemau ariannol, risg a rheoli priodol cyn defnyddio

[redacted]

unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant i drydydd parti nac i brynu nwyddau neu wasanaethau oddi wrth drydydd parti;

iii) Adroddiad Cynnydd;

iv) anfonebau i gefnogi taliadau a wnaed gyda'r hawliad olaf;

v) dadansoddiad o gostau terfynol y gwaith ar yr hawliad olaf a lle bo gofyn ar gyfer grantiau adeiladu, copi o gyfrifon terfynol y Contractwr;

vi) tystiolaeth sy'n foddhaol inni o ran ffurf a sylwedd fod gennych systemau priodol ar waith i sicrhau y cynhelir diwydrwydd dyladwy parhaus mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Cyllid sy'n cael ei defnyddio gennych i ddarparu grant a/neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti.

(d) Rhaid ichi ddarparu inni'n brydlon unrhyw wybodaeth, dogfen, barn neu sicrwydd arall yr ydym yn ystyried sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol (os ydym wedi'ch hysbysu'n briodol) mewn cysylltiad â'ch hawliad ar gyfer y Cyllid. Gall unrhyw fethiant gennych i ddarparu gwybodaeth, dogfen, barn neu sicrwydd o'r fath arwain at wrthod hawliad a/neu at dynnu'n ôl y Cyllid cyfan neu unrhyw ran ohono.

(e) Byddwn yn anelu at dalu pob hawliad dilys cyn gynted ag y bo modd ac fel arfer o fewn 20 Diwrnod Busnes ar ôl cael hawliad dilys a wnaed yn unol â darpariaethau'r llythyr hwn, a bob amser cyhyd â bod rhagamodau'r Cyllid a nodir yn Amod 5 uchod wedi'u bodloni ac, ar ddyddiad yr hawliad a dyddiad talu'r Cyllid ichi:

i) bod y datganiadau a wnaed yn Amod 8 isod yn wir ac yn gywir ac y byddant yn wir ac yn gywir yn union ar ôl i'r Cyllid perthnasol gael ei dalu ichi; a

ii) nad oes Digwyddiad Hysbysadwy yn mynd rhagddo neu nad oes posibilrwydd i Ddigwyddiad Hysbysadwy ddeillio o'r Cyllid arfaethedig.

(f) Bydd unrhyw daliadau o'r Cyllid yn cael eu gwneud i'r Cyfrif yn unig ac ni fyddant yn cael eu talu i unrhyw gyfrif banc arall.

7. Eich rhwymedigaethau cyffredinol i ni

Rhaid ichi:

(a) diogelu'r Cyllid rhag twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, twyll ar ran eich Personél, a rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith os bydd gennych reswm i amau bod twyll wedi digwydd yn eich sefydliad, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, ni waeth a yw'n ymwneud â'r Cyllid ai peidio. Rhaid ichi hefyd gymryd rhan mewn unrhyw fentrau atal twyll y byddwn yn eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd;

(b) cynnal gweithdrefnau priodol ar gyfer delio ag unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Cyllid, boed yn wrthdaro gwirioneddol, yn wrthdaro posibl neu'n wrthdaro canfyddedig;

(c) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau domestig neu ryngwladol cymwys, a chyfarwyddebau swyddogol;

(d) cynnal yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo

[redacted]

neu unrhyw weithgaredd yr ymgymerir ag ef wrth gyflawni'r Dibenion. Yr ydym yn cadw'r hawl i'w gwneud yn ofynnol ichi gyflwyno tystiolaeth o'ch yswiriant;

(e) cynnal systemau ariannol, systemau risg a systemau rheoli priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid ar gyfer y Dibenion;

(f) cynnal systemau ariannol, systemau risg a systemau diwydrwydd dyladwy priodol wrth ddefnyddio unrhyw ran o'r Cyllid i ddarparu grant a/neu i gaffael unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan drydydd parti;

(g) cydweithredu'n llawn â Swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw un neu ragor o gyflogeion eraill Llywodraeth Cymru neu unrhyw ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro'ch defnydd o'r Cyllid a'ch cydymffurfedd â'r Amodau;

(h) rhoi gwybod inni ar unwaith os bydd unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 8 yn anghywir mewn unrhyw fodd neu, o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n anghywir; ac

(i) ein hysbysu am unrhyw gyllid yr ydych wedi'i gael o unrhyw ffynhonnell a gaffaelir neu a ddefnyddir ar y cyd â'r Cyllid i gefnogi'r Dibenion yn uniongyrchol, gan gynnwys eich darparwr yswiriant (yswiriant canslo/amharu ar fusnes), unrhyw gronfa/cynllun a gynigir gan Weinidogion Cymru neu Lywodraeth y DU a/neu unrhyw gyllidwyr eraill. Bwriad yr Amod hwn yw osgoi dyblygu cyllid mewn perthynas â'r Dibenion.

8. Datganiadau

(a) Yr ydych yn datgan:

i) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r rhwymedigaethau a nodir yn y llythyr hwn a'r Amodau a'u cyflawni, a'ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau'r awdurdod ichi ymgymryd â'r rhwymedigaethau o dan yr Amodau a'u cyflawni;

ii) nad eir y tu hwnt i unrhyw gyfyngiad ar eich pwerau (gan gynnwys pwerau benthyca) o ganlyniad i hawlio'r Cyllid, nac o ganlyniad i roi unrhyw sicrwydd a ystyrir gan yr Amodau;

iii) nad yw ac na fydd ymgymryd ag unrhyw un neu ragor o'r trafodiadau a ystyrir gan y llythyr hwn, na'u cyflawni gennych, yn mynd yn groes i'r canlynol nac yn gwrthdaro â'r canlynol:

I. eich dogfennau cyfansoddiadol;

II. unrhyw gytundeb neu offeryn sy'n rhwymol arnoch chi neu'ch asedau neu sy'n gyfystyr â diffyg neu ddigwyddiad terfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn o'r fath; na

III. unrhyw ddeddf neu reoliad neu orchymyn barnwrol neu swyddogol, sy'n gymwys ichi neu'r gweithgareddau a gyflawnir gennych;

iv) nad oes Digwyddiad Hysbysadwy yn mynd rhagddo neu na ellid yn rhesymol ddisgwyl i Ddigwyddiad Hysbysadwy ddeillio o ddarparu'r Cyllid ac nad oes

[redacted]

digwyddiad nac amgylchiad arall heb ei ddatrys sy'n gyfystyr â (neu a fyddai, ar ôl i gyfnod gras ddod i ben, ar ôl i hysbysiad gael ei roi, ar ôl i unrhyw benderfyniad gael ei wneud, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, yn gyfystyr â) diffyg neu ddigwyddiad terfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n rhwymol arnoch neu y mae unrhyw un neu ragor o'ch asedau yn ddarostyngedig iddo;

v) nad oes achos o ymgyfreitha na chymrodeddu nac achos gweinyddol yn mynd rhagddo, wedi'i fygwth neu yn yr arfaeth, sy'n cael, neu a allai gael, effaith anffafriol ar eich gallu i barhau i weithredu, neu gyflawni neu gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r Amodau;

vi) eich bod wedi datgelu inni yr holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu i'n galluogi i gael darlun gwir a chywir o'ch busnes a'ch gweithgarwch (cyfredol ac arfaethedig), neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid ichi;

vii) nad ydych chi, ar hyn o bryd nac unrhyw bryd yn y gorffennol, wedi'ch rhestru ar unrhyw Restr Sancsiynau, ac nad yw neb o'ch Personél neu bersonau sy'n gysylltiedig â chi wedi'u rhestru ar unrhyw Restr Sancsiynau nac wedi cymryd rhan mewn ymddygiad a fyddai'n arwain at eich dynodi ar unrhyw Restr Sancsiynau;

viii) bod unrhyw wybodaeth, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig, a ddarperir gennych inni mewn cysylltiad â'r Cyllid, ar yr adeg y'i darparwyd neu'r dyddiad y nodwyd ei bod wedi'i darparu (yn ôl y digwydd):

I. yn achos gwybodaeth ffeithiol, yn gyflawn, yn wir ac yn gywir ym mhob agwedd berthnasol;
II. yn achos amcanestyniad neu ragolwg ariannol, wedi'i pharatoi ar sail gwybodaeth hanesyddol ddiweddar ac ar sail rhagdybiaethau rhesymol ac ar ôl ystyriaeth ofalus;
III. yn achos barn neu fwriad, wedi'i gwneud ar sail resymol ac ar ôl ystyriaeth ofalus a'i bod yn deg; a
IV. nad yw gwybodaeth o'r fath yn gamarweiniol mewn unrhyw agwedd berthnasol, nac yn gamarweiniol oherwydd methiant i ddatgelu gwybodaeth arall,

ac eithrio i'r graddau y mae wedi'i diwygio, ei disodli neu ei diweddaru gan wybodaeth ddiweddarach a ddarperir gennych inni;

ix) eich bod wedi trafod y Targedau â ni ac wedi cytuno arnynt, a'ch bod yn hyderus eu bod yn realistig ac yn gyraeddadwy;

x) nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Cyllid, boed yn wrthdaro gwirioneddol, yn wrthdaro posibl neu'n wrthdaro canfyddedig, boed mewn perthynas â chi neu unrhyw un neu ragor o'ch Personél; ac

xi) na fydd derbyn y dyfarniad Cyllid hwn yn arwain at ddyblygu cyllid mewn perthynas â'r gweithgareddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Dibenion o unrhyw ffynhonnell arall; a

xii) bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad Sicrwydd (os yn berthnasol) yn gyflawn, yn wir ac yn gywir.

(b) Bernir y byddwch yn ailadrodd y datganiadau yn yr Amod 8 hwn ar:

[redacted]

i) pob dyddiad pan fyddwch yn cyflwyno hawliad ar gyfer taliad o'r Cyllid yn unol â'r Amodau; a
ii) pob dyddiad pan allai fod gennych unrhyw rwymedigaeth inni o dan neu mewn perthynas â'r Amodau neu'r dyfarniad Cyllid,

ym mhob achos drwy gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fydd yn bodoli ar ddyddiad o'r fath.

9. Digwyddiadau Hysbysadwy a'u canlyniadau

(a) Heb leihau effaith darpariaethau Amod 9, os byddwch yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau sy'n codi yn ystod y Cyfnod Ariannu a/neu wrth gyflawni'r Dibenion ac yr ydych yn ansicr a ydynt yn gyfystyr â Digwyddiad Hysbysadwy neu â'r potensial i ddod yn Ddigwyddiad Hysbysadwy, byddem yn eich annog i gysylltu â Swyddog Llywodraeth Cymru yn brydlon i drafod y digwyddiadau neu'r amgylchiadau hyn.

(b) Rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith am unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy a fydd wedi digwydd neu a fydd yn debygol o ddigwydd; ond rydym hefyd yn cadw'r hawl i'ch hysbysu chi os credwn fod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd neu y gallai ddigwydd.

(c) Pan fydd Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd, ac ar unrhyw adeg ar ôl hynny, cawn, drwy roi hysbysiad ichi:

i) cadarnhau bod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd a chadw ein holl hawliau mewn perthynas â'r Cyllid a'r Amodau o bryd i'w gilydd; a/neu
ii) nodi a ydym o'r farn, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, fod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy; a/neu
iii) nodi a ydym o'r farn, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, fod modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy, a cheisio trafod y Digwyddiad Hysbysadwy â chi gyda golwg ar gytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy, ei unioni neu ei liniaru, a/neu i fynd i'r afael â'r digwyddiadau neu'r amgylchiadau a arweiniodd ato, eu hunioni neu eu lliniaru; a/neu
iv) cymryd unrhyw gamau yr ydym yn ystyried sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol o bryd i'w gilydd mewn perthynas â'r Digwyddiad Hysbysadwy hwnnw neu'r digwyddiadau neu'r amgylchiadau a arweiniodd ato.

(d) Er gwaethaf darpariaethau Amod 9(c), pan fydd Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd, ac ar ôl hynny, cawn gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a restrir yn Amod 9(e):

i) os na fyddwn, er gwaethaf ein hymdrechion, wedi llwyddo i drafod y Digwyddiad Hysbysadwy â chi; neu
ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd, yn ein barn ni, unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy; neu
iii) os na chytunir â chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad

[redacted]

Hysbysadwy a/neu i'w unioni; neu

iv) os cytunir â chi ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r Digwyddiad Hysbysadwy a/neu i'w unioni a chithau wedyn yn methu â dilyn y camau hynny, neu os na fodlonir unrhyw amod sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu (gan gynnwys yr amserlen ar gyfer camau gweithredu o'r fath) mewn modd sydd wrth ein bodd; neu

v) os yw'r camau gweithredu yn methu ag unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy mewn modd sydd wrth ein bodd.

(e) Os digwydd unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a nodir yn Amod 9(d), cawn, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, drwy roi hysbysiad ichi:

i) tynnu'r dyfarniad Cyllid yn ôl; a/neu
ii) datgan bod swm cyfanredol y Cyllid a dalwyd ichi yn ddyledus ac yn daladwy ar unwaith, ac ar hynny daw'n ddyledus ac yn daladwy ar unwaith; a/neu
iii) ei gwneud yn ofynnol ichi ad-dalu ar unwaith y Cyllid cyfan neu ran ohono; a/neu
iv) atal dros dro neu'n derfynol bob taliad pellach o'r Cyllid; a/neu
v) gwneud pob taliad pellach o'r Cyllid yn ddarostyngedig i ba Amodau ychwanegol bynnag a bennir gennym; a/neu
vi) tynnu pob swm sy'n ddyledus inni o dan yr Amodau hyn o unrhyw gyllid arall yr ydym wedi'i ddyfarnu ichi neu a allai gael ei ddyfarnu ichi; a/neu
vii) arfer yn eich erbyn unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym mewn perthynas â'r Cyllid neu sy'n codi o dan y llythyr hwn.

(f) Rhaid i ad-daliad o unrhyw Gyllid gael ei wneud o fewn ugain Diwrnod Busnes i ddyddiad ein gorchymyn.

10. Gofynion monitro

Rhaid ichi:

(a) darparu inni unrhyw ddogfennau, gwybodaeth ac adroddiadau y gall fod arnom eu hangen o bryd i'w gilydd, er mwyn inni fonitro eich bod yn cydymffurfio â'r Amodau:

i) adroddiadau cynnydd;
ii) gwariant rhagolygon dyfodol

(b) cyfarfod â Swyddog Llywodraeth Cymru a pha bynnag rai eraill o'n cynrychiolwyr y gallwn yn rhesymol ofyn ichi gyfarfod â hwy o bryd i'w gilydd;

(c) sicrhau bod y Rheolwr Prosiect (neu berson arall o'r fath y gallem gytuno arno), ynghyd ag unrhyw berson arall a fydd yn ofynnol gennym, yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd â Swyddog Llywodraeth Cymru.

11. Gofynion Archwilio

[redacted]

(a) Rhaid ichi:

i) cadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn, cywir a dilys sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r Dibenion;
ii) yn ddi-dâl, caniatáu i unrhyw un neu ragor o swyddogion Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru neu unrhyw un neu ragor o gyrff gorfodi cymorthdaliadau'r DU, ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl ichi gael cyfnod rhesymol o rybudd (o dan amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol ichi), ymweld â'ch mangre a/neu arolygu unrhyw un neu ragor o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'ch llyfrau cyfrifon a pha ddogfennau neu gofnodion bynnag eraill, sut bynnag y'u cedwir, a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'ch defnydd o'r Cyllid. Nid yw'r ymrwymiad hwn yn lleihau effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, Archwilio Cymru neu unrhyw un neu ragor o gyrff gorfodi cymorthdaliadau'r DU, neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un neu ragor o'r uchod, ac y mae'r ymrwymiad yn ddarostyngedig i'r hawliau a'r pwerau statudol hynny;
iii) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid am ddeng mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid; a
iv) darparu tystysgrif archwilio inni, yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodlen 5 os yn berthnasol.

(b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol, sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi pa gymorth, gwybodaeth ac esboniadau bynnag y gofynnant amdanynt; a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ymddangos ger eu bron at ddiben o'r fath. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar unrhyw adeg resymol.

12. Rhwymedigaethau i drydydd parti

(a) Nid oes dim yn yr Amodau yn gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag:

i) unrhyw atebolrwydd sydd gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys eich cyflogeion a'ch contractwyr); neu
ii) yn achos Cyllid Cyfatebol, unrhyw wybodaeth neu ddata, ni waeth a yw neu a ydynt yn wir, yn gywir neu'n gyflawn ai peidio, a ddarperir inni gan Gyllidwr Cyfatebol yr ydym yn gweithredu neu'n dibynnu arni neu arnynt.

(b) Trwy lofnodi'r llythyr hwn, yr ydych yn cytuno i'n hindemnio, ar alw, rhag pob atebolrwydd, hawliad, achos cyfreithiol, archeb, dyfarndal, dyfarniad, setliad, cam cyfreithiol, iawndal, colled, cost a thraul, a ddaw i'n rhan yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i unrhyw fethiant ar eich rhan, neu mewn perthynas ag unrhyw fethiant ar eich rhan, i gyflawni, yn llawn neu'n rhannol, unrhyw rwymedigaeth a allai fod arnoch i drydydd parti o bryd i'w gilydd.

[redacted]

13. Hawliau eiddo deallusol a chyhoeddusrwydd

(a) Nid oes dim yn yr Amodau yn trosglwyddo inni unrhyw hawliau mewn unrhyw eiddo deallusol a grëir gennych o ganlyniad i'r Dibenion.

(b) Rhaid ichi gydnabod ein cymorth mewn perthynas â'r Dibenion. Rhaid i'r gydnabyddiaeth honno neu'r cydnabyddiaethau hynny fod ar ffurf a gymeradwyir gennym, a rhaid i'r gydnabyddiaeth honno neu'r cydnabyddiaethau hynny gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru.

(c) Rhaid ichi ddarparu i Swyddog Llywodraeth Cymru fanylion pob cydnabyddiaeth y cyfeirir ati yn Amod 13(b) i'w chymeradwyo gennym cyn ei defnyddio ac ni chaniateir ichi ddefnyddio cydnabyddiaethau o'r fath heb gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw. Byddwn yn ceisio ymateb i bob cais ysgrifenedig am gymeradwyaeth o fewn 14 Diwrnod Busnes.

(d) Yr ydych yn cytuno bod hawl gennym, o ddyddiad y llythyr hwn hyd at 5 mlynedd o ddyddiad taliad olaf y Cyllid, i gynnwys yn neunyddiau hyrwyddo Llywodraeth Cymru fanylion am eich sefydliad a'ch busnes, ac am y Cyllid a'r Dibenion, ac yr ydych hefyd yn cytuno i gydweithredu â cheisiadau rhesymol gennym i'n galluogi i lunio deunyddiau o'r fath.

14. Gwybodaeth

(a) Yr ydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (yr "**FOIA**"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "**EIR**"), Deddf Diogelu Data 2018 a'r fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((EU) 2016/679).

(b) Yr ydych yn cydnabod mai ni sy'n gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn absoliwt:

i) a ddylid datgelu unrhyw wybodaeth y byddwn wedi'i chael o dan y Cyllid neu mewn cysylltiad ag ef, i'r graddau y mae'n ofynnol inni ddatgelu gwybodaeth o'r fath i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR; a/neu

ii) a oes unrhyw wybodaeth o'r fath yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan yr FOIA neu'r EIR.

(c) Yr ydych yn cydnabod y cawn rannu unrhyw wybodaeth neu ddata a gawn gennych neu mewn cysylltiad â'r Cyllid ag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon (gan gynnwys unrhyw Gyllidwr Cyfatebol) at ddibenion atal a chanfod twyll a sicrhau cydymffurfedd â'r Amodau. Rheolir unrhyw ddata personol a gesglir gennym yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd sydd i'w weld yma Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru.

(d) Gweler Atodlen 7 sy'n darparu manylion eich rhwymedigaethau mewn perthynas â diogelu data.

[redacted]

15. Prynu nwyddau a gwasanaethau

(a) Os byddwch yn penderfynu prynu unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau i gyflawni'r Dibenion, rhaid eu prynu mewn modd cystadleuol a chynaliadwy er mwyn dangos eich bod: (i) wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, a (ii) wedi cydymffurfio â'ch polisi gwrthdaro buddiannau ar yr adeg berthnasol.

(b) O bryd i'w gilydd, cawn ofyn ichi am dystiolaeth i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Amod 15 hwn. Gallai tystiolaeth o'r fath fod ar ffurf tystiolaeth eich bod:

i) yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau, deddfwriaeth neu ganllawiau caffael a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd ac yr ydych chi, neu unrhyw berson sy'n cynnal busnes neu swyddogaeth o'r un natur â'ch un chi neu natur debyg, yn ddarostyngedig iddynt; neu
ii) yn cydymffurfio â'ch polisi caffael a fydd mewn grym ar yr adeg berthnasol; neu
iii) wedi cael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y nwyddau a/neu'r gwasanaethau perthnasol.

(c) Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth o'r fath inni yn brydlon ar ôl inni wneud cais ysgrifenedig am dystiolaeth o'r fath.

16. Asedau a Ariennir

(a) Rhaid ichi:

i) sicrhau bod yr holl Asedau a Ariennir yn cael eu cynnal mewn cyflwr da yn ystod y Cyfnod Perchnogi Asedau a Ariennir;
ii) peidio â chreu unrhyw arwystl, morgais cyfreithiol, dyledeb neu hawlrwym dros unrhyw Ased a Ariennir heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw; a
iii) peidio â symud neu adleoli unrhyw Ased a Ariennir o'ch man busnes arferol yng Nghymru heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

(b) Ni chaniateir ichi waredu unrhyw Asedau a Ariennir heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw. Os byddwn yn rhoi cydsyniad i Waredu, gall cydsyniad o'r fath fod yn amodol ar fodloni amodau penodol, i'w pennu gennym ni.

(c) Os byddwch yn gwaredu unrhyw Ased a Ariennir heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw, rhaid ichi ddal holl enillion y gwarediad hwnnw mewn ymddiriedolaeth ar ein cyfer, a'u talu neu eu trosglwyddo inni, i'w defnyddio tuag at glirio unrhyw arian sy'n ddyledus ac yn daladwy, neu a allai ddod yn ddyledus ac yn daladwy, o dan yr Amodau neu fel y cawn benderfynu fel arall yn ôl ein disgresiwn absoliwt.

17. Hysbysu

(a) Pan fydd yn ofynnol rhoi hysbysiad o dan yr Amodau rhaid gwneud hynny'n

[redacted]

ysgrifenedig (nid yw hynny'n cynnwys e-bost, ond caiff gynnwys copi PDF o lythyr a atodir i e-bost) a rhaid iddo ddangos y canlynol yn amlwg ar yr hysbysiad (yn achos llythyr) neu yn y llinell bwnc (yn achos e-bost):

"***Hysbysiad ynghylch [disgrifiad a chyfeirnod]***".

(b) Dyma'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt at ddibenion rhoi hysbysiad o dan yr Amodau:

Chi: y Rheolwr Prosiect yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

Ni: Swyddog Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a nodir yn Amod 3.

(c) Bernir bod hysbysiad wedi'i gyflwyno'n briodol fel a ganlyn:

Post dosbarth cyntaf rhagdaledig:	ar yr ail Ddiwrnod Busnes ar ôl y dyddiad postio.
Â llaw:	ar yr adeg y'i danfonir i'r cyfeiriad neu'r Diwrnod Busnes nesaf os yw hi ar ôl 4pm neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes.
Trwy atodiad e-bost:	ar yr adeg y'i trawsyrrir neu os y'i trawsyrrir ar ôl 4pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, y Diwrnod Busnes nesaf.

18. Cydraddoldeb

Rhaid ichi fod â pholisïau cydraddoldeb ar waith ynghylch cyflogaeth, defnyddio gwirfoddolwyr a darparu gwasanaethau, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

19. Y Gymraeg

(a) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant ac mae strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer tyfu a datblygu'r Gymraeg ymhellach.

(b) Pan fo'r Dibenion yn cynnwys darparu gwasanaethau yng Nghymru neu'n ymwneud â darparu gwasanaethau yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai y byddai'n afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny. Rhaid eu darparu mewn modd nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

(c) Pan fo darpariaeth gwasanaethau yn ffurfio rhan o'r Dibenion, rhaid ichi weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac amcanion Cymraeg 2050. Yn ymarferol, bydd hynny'n golygu bod y canlynol yn ofynnol:

i) sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei lunio, gan gynnwys deunydd

[redacted]

digidol, yn ddwyieithog;

ii) sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog;

iii) sicrhau y cynhelir unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog; a

iv) hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn weithredol (gan gynnwys darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg) o fewn y Dibenion.

(d) I gael cyngor cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau'n ddwyieithog ac i gael gwybodaeth am sefydliadau a all eich helpu, cysylltwch â "Helo Blod", sef gwasanaeth sy'n rhoi cyngor ar y Gymraeg, drwy ffonio 03000 258888 neu anfon eich ymholiad drwy e-bost i heloblod@llyw.cymru.

20. Datblygu cynaliadwy

Rhaid ichi ddefnyddio'r Cyllid mewn ffordd sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion llesiant sydd wedi'u nodi yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Rhaid ichi weithio mewn modd cynaliadwy (gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy) wrth gyflawni'r Dibenion er mwyn sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd ataliol, integredig, hirdymor a chydweithredol sy'n cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.

21. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

Yr ydych yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gynyddu a chael eu diwygio, a bod rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â phob swyddogaeth unigol o'r fath yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol, gan ymwrthod â phob ystyriaeth amherthnasol. Yr ydych yn cytuno na fydd dim sydd yn yr Amodau neu sydd ymhlyg ynddynt, neu sy'n codi oddi tanynt neu mewn cysylltiad â hwy, mewn unrhyw fodd yn lleihau, yn llyffetheirio, neu'n effeithio ar unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, nac yn rhoi rhwymedigaeth ar unrhyw un neu ragor o Weinidogion Cymru i arfer eu swyddogaethau, neu i ymatal rhag eu harfer, mewn unrhyw fodd penodol.

22. Cyffredinol

(a) Os bernir, ar unrhyw adeg, fod neu y bydd un neu ragor o'r Amodau yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy mewn unrhyw fodd o dan unrhyw gyfraith gymwys, nid effeithir ac nid amherir mewn unrhyw fodd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb a gorfodadwyedd gweddill y darpariaethau.

(b) Ni fydd methiant neu oedi ar ein rhan i arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o dan yr Amodau yn golygu y ceir hepgor pŵer, hawl neu rwymedi o'r fath, nac yn ein rhwystro rhag arfer pŵer, hawl neu rwymedi o'r fath ymhellach, neu rhag arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi arall. Mae'r pwerau, yr hawliau neu'r rhwymedïau a ddarperir drwy hyn yn rhai cronnus ac nid ydynt yn nacáu unrhyw bwerau, hawliau neu rwymedïau y darperir ar eu cyfer drwy'r gyfraith.

[redacted]

(c) Rhaid i unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i'r Amodau fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gennym ni a chennych chi mewn modd sy'n foddhaol inni o ran ffurf a sylwedd o bryd i'w gilydd.

(d) Ni chaniateir ichi aseinio, is-gontractio na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall, eich hawliau, eich buddion, eich rhwymedigaethau na'ch dyletswyddau o dan yr Amodau.

(e) Bydd Amodau 7, 9, 11, 13, 14, a 22(e), ac Amodau eraill o'r fath y mae angen iddynt, drwy oblygiad, barhau mewn grym y tu hwnt i daliad olaf y Cyllid, yn parhau felly yn eu llawn rym ac effaith.

(f) I chi yn unig y gwneir y dyfarniad Cyllid ac nid oes gan neb arall yr hawl i wneud unrhyw hawliad mewn perthynas â'r Cyllid na cheisio dibynnu ar unrhyw un neu ragor o'r Amodau na'u gorfodi.

(g) Os ydych chi'n ddau neu ragor o bersonau neu gyrff, bydd rhwymedigaethau'r personau neu'r cyrff hynny yn rhai ar y cyd ac yn unigol, a bydd diffyg ar ran un o'r personau neu'r cyrff yn cael ei ystyried yn ddiffyg gan bob un ohonynt.

(h) Llywodraethir a dehonglir unrhyw anghydfodau neu hawliadau (gan gynnwys unrhyw anghydfodau neu hawliadau anghontractiol) sy'n deillio o'r llythyr hwn, ei ffurfio neu ei bwnc, neu mewn cysylltiad â'r llythyr hwn, ei ffurfio neu ei bwnc, neu'r Cyllid, yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y'u cymhwysir yng Nghymru, ac mae'r partïon yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth unigryw Llysoedd Cymru a Lloegr i glywed unrhyw anghydfodau neu hawliadau o'r fath mewn perthynas â hynny.

23. Sut i dderbyn y cynnig Cyllid hwn

(a) Er mwyn derbyn y dyfarniad Cyllid hwn, rhaid ichi lofnodi'r llythyr hwn ac anfon copi ohono at Swyddog Llywodraeth Cymru. Ni fydd dim o'r Cyllid yn cael ei dalu ichi hyd nes y byddwn wedi cael eich llythyr llofnodedig [y Datganiad Sicrwydd wedi'i gwblhau] ac unrhyw ddogfennau neu gadarnhadau eraill yr ydym wedi gofyn ichi amdanynt.

(b) Rhaid inni gael eich llythyr llofnodedig ar 20/05/2026 neu bydd y dyfarniad Cyllid hwn yn cael ei dynnu'n ôl yn awtomatig.

[redacted]

Yn gywir

Llofnodwyd gan: [redacted]
Printiwch eich enw: [redacted]
[redacted] [redacted], Cangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
Adran: Llywodraeth Leol, Tai a Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

[redacted]

ATODLEN 1

Y Dibenion

DIBENION A CHOSTAU

Diben y Cyllid yw eich galluogi i gyflawni'r canlynol:

.

Cod yr Eitem	Disgrifiad o'r Eitem	Cyfanswm y Gost	Cyfradd Grant	Y Grant a Gymeradwywyd £	Ased a Ariennir	Cyfnod Perchnogi Asedau a Ariennir
JA001	Dylunio / datblygu / Datblygu Achos Busnes Llawn (Cyfanswm)	£3180626.41	100.00 %	3,180,626.41	Ie	1
Cyfanswm Uchafswm y Grant a Gymeradwywyd				£3,180,626.41		

[redacted] [redacted]

ATODLEN 2

Y Targedau

Rhestrir unrhyw dargedau sy'n gymwys isod.

[redacted]

[redacted]

ATODLEN 3

Digwyddiadau Hysbysadwy

Mae'r Digwyddiadau Hysbysadwy y cyfeirir atynt yn Amod 9 yn cael eu rhestru isod:

1. bod ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn ofynnol yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol;
2. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r Amodau;
3. nad yw'r Cyllid, yn llawn neu'n rhannol, yn cael ei ddefnyddio at y Dibenion;
4. eich bod yn methu â chyrraedd unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o'r Targedau;
5. bod cynnydd anfoddhaol tuag at gwblhau'r Dibenion a/neu tuag at gyrraedd y Targedau;
6. eich bod yn methu â darparu gwybodaeth am y Dibenion y byddwn ni neu unrhyw un neu ragor o gyrff gorfodi cymorthdaliadau'r DU, neu unrhyw rai o'i archwilwyr, ei asiantiaid neu ei gynrychiolwyr, yn gofyn amdani;
7. yn achos Cyllid Cyfatebol: (a) nad yw Cyllidwr Cyfatebol yn cysylltu â ni i gadarnhau'r trefniadau sy'n ymwneud â'i gyllid (lle bo hynny'n briodol); (b) bod Cyllidwr Cyfatebol yn cadarnhau inni fod rhan neu'r cyfan o'i gyllid wedi'i dynnu'n ôl neu ei oedi am unrhyw reswm neu eich bod yn torri eich cytundeb â'r Cyllidwr Cyfatebol hwnnw; neu (c) eich bod yn cael hysbysiad gan Gyllidwr Cyfatebol eich bod yn torri unrhyw gytundeb rhyngoch chi a'r Cyllidwr Cyfatebol;
8. bod rheswm gennym dros gredu eich bod chi a/neu unrhyw un neu ragor o'ch Personél yn cymryd rhan mewn gweithgarwch twyllodrus neu drosedd feddiangar neu wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch twyllodrus neu drosedd feddiangar, boed hynny'n ymwneud â'r Cyllid, neu'n gysylltiedig ag ef mewn unrhyw ffordd, ai peidio;
9. ein bod ni wedi gordalu Cyllid ichi;
10. eich bod yn cael cyllid dyblyg mewn perthynas ag unrhyw elfen o'r Dibenion o unrhyw ffynhonnell arall, gan gynnwys unrhyw gronfa neu gynllun gan Lywodraeth y DU neu Weinidogion Cymru;
11. bod unrhyw ddatganiad a wneir yn Amod 8 yn anghyflawn, yn anwir, yn gamarweiniol neu'n anghywir mewn unrhyw fodd, neu y gwelir ei fod felly, neu o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n anghywir;
12. bod addasiad yn cael ei wneud i farn yr archwilydd (sy'n golygu bod y farn honno yn un amodol, yn anffafriol neu o dan ymwadiad) am eich datganiadau ariannol;
13. bod digwyddiad neu amgylchiad wedi codi sydd heb ei ddatrys ac sy'n gyfystyr â (neu a fyddai, ar ôl i gyfnod gras ddod i ben, ar ôl i hysbysiad gael ei roi, ar ôl i unrhyw benderfyniad gael ei wneud neu ar ôl unrhyw gyfuniad o'r rhain, yn gyfystyr â) diffyg neu ddigwyddiad terfynu (sut bynnag y caiff ei ddisgrifio) o dan unrhyw gytundeb neu offeryn arall sy'n rhwymol arnoch chi neu y mae

[redacted]

[redacted]

unrhyw un neu ragor o'ch asedau yn ddarostyngedig iddo;

14. bod moratoriwm mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw un neu ragor o'ch dyledion neu'ch asedau, neu fod compównd neu gytundeb â'ch credydwyr, wedi'i gytuno, ei orchymyn neu'i ddatgan;
15. eich bod yn atal neu'n gohirio talu unrhyw ddyledion neu nad ydych yn gallu talu'ch dyledion, neu eich bod yn cyfaddef yn ysgrifenedig nad ydych yn gallu talu eich dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus;
16. bod gwerth eich asedau yn llai na'ch atebolrwyddau (gan ystyried atebolrwyddau dibynnol a darpar atebolrwyddau);
17. eich bod yn dechrau negodiadau, neu'n ymgymryd ag unrhyw gompównd, cytundeb cyfaddawdol, aseiniad neu drefniant, gydag un neu ragor o'ch credydwyr gyda golwg ar ad-drefnu unrhyw un neu ragor o'ch dyledion (oherwydd anawsterau ariannol gwirioneddol neu ddisgwyliedig);
18. bod unrhyw weithredu, achos, gweithdrefn neu gam yn cael ei gymryd mewn perthynas â chi ynghylch:
    (a) gohirio taliadau, moratoriwm mewn perthynas ag unrhyw ddyled, dirwyn i ben, diddymu, mynd i ddwylo gweinyddwyr neu ad-drefnu (gan ddefnyddio trefniant neu gynllun gwirfoddol neu fel arall); neu
    (b) compównd, cytundeb cyfaddawdol, aseiniad neu drefniant gydag unrhyw un neu ragor o'ch credydwyr; neu
    (c) penodi datodwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, rheolwr gorfodol neu swyddog tebyg arall mewn perthynas â chi neu unrhyw un neu ragor o'ch asedau.
19. bod archeb statudol yn cael ei dyroddi yn eich erbyn;
20. eich bod yn rhoi'r gorau, neu'n bygwth gohirio neu roi'r gorau, i gynnal y cyfan neu ran sylweddol o'ch busnes;
21. bod newid yn eich cyfansoddiad, eich statws, eich rheolaeth neu'ch perchnogaeth a/neu fod eich archwilwyr allanol yn ymddiswyddo;
22. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau adrodd statudol neu reoleiddiol sy'n gymwys ichi (gan gynnwys gofynion ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol);
23. bod ymchwiliad gan gorff statudol, rheoleiddiol neu lywodraethol yn dechrau mewn perthynas â chi, eich busnes neu unrhyw aelod o'ch tîm o uwch-reolwyr (gan gynnwys ymchwiliadau gan Dŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'r heddlu);
24. bod unrhyw newid, gan gynnwys anghymhwyso, terfynu heb rybudd neu daliad yn lle rhybudd neu o ganlyniad i berfformiad neu ymddygiad gwael y person hwnnw, neu ymddiswyddiad ar unwaith yn eich tîm o uwch-reolwyr neu ymhlith y rhai sy'n eich rheoli (gan gynnwys eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr neu eich partneriaid, fel y bo'n berthnasol) a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r Dibenion;
25. bod unrhyw newid, parhaol neu dros dro yn eich Personél a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r Dibenion;
26. Gwaredu Ased a Ariennir neu Asedau a Ariennir heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw;
27. bod unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad yn codi a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallai darparu'r Cyllid, a/neu

[redacted] [redacted]

barhau â'r trefniadau a ystyrir gan y llythyr hwn, ddwyn anfri arnom; neu

28. bod unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad yn codi a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallech beidio â chyflawni neu gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau, neu y gallech fod yn analluog i wneud hynny.

[redacted]

[redacted]

ATODLEN 4

Proffil Taliadau Dangosol
(cyfeiriwch at Amodau 5(b), 6(a) a (b))

Isod, fe welwch fanylion eich Proffil Taliadau Dangosol. Rhaid hawlio cyllid yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.

	Cyfanswm (£)
2023/2024	40,965.61
Ebrill - Mehefin 2023	0.00
Gorfennaf - Medi 2023	13,892.06
Hydref - Rhagfyr 2023	0.00
Ionawr - Mawrth 2024	27,073.55
2024/2025	973,777.80
Ebrill - Mehefin 2024	0.00
Gorfennaf - Medi 2024	129,341.86
Hydref - Rhagfyr 2024	0.00
Ionawr - Mawrth 2025	844,435.94
2025/2026	1,885,190.32
Ebrill - Mehefin 2025	0.00
Gorfennaf - Medi 2025	1,214,990.80

[redacted]

[redacted]

Hydref - Rhagfyr 2025	0.00
Ionawr - Mawrth 2026	670,199.52
2026/2027	280,692.68
Ebrill - Mehefin 2026	280,692.68

[redacted] [redacted]

ATODLEN 5

Tystysgrif Archwilio
Datganiad o Wariant Blynyddol y Grant

Os yw'r grant yn werth llai na £100,000, nid oes angen cyflwyno'r dystysgrif hon.

Tystysgrif Dyraniad yr Awdurdod Lleol

Adroddiad incwm / gwariant diwedd y flwyddyn

a) Cyfanswm y grant a dderbyniwyd ar gyfer 2023 – 24 £
b) Gwariant gwirioneddol £

Grant i'w adennill gan Weinidogion Cymru (a-b) £

Rwy'n cadarnhau bod y nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt wedi cael eu cyflawni.

Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid

Rwy'n ardystio hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- bod yr wybodaeth a roddir uchod yn gywir, a bod yr holl wariant yn cofnodi'n gywir y symiau gwirioneddol a gafodd eu talu gan yr awdurdod mewn perthynas â'r dibenion a'r costau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n gymwys o dan y grant;
- bod gweithgarwch wedi ei gyflawni yn unol â'r nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt, ac yn unol â'r llythyr dyfarnu a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant;
- bod systemau a rheolaethau wedi bod ar waith i sicrhau bod y grant wedi cael ei wario ar y dibenion y'i rhoddwyd ar eu cyfer, ac ar y dibenion hynny yn unig, boed hynny'n uniongyrchol neu drwy gael ei roi i sefydliadau eraill;
- nad oes unrhyw gyllid arall wedi ei hawlio oddi wrth Lywodraeth Cymru, nac unrhyw gorff arall, mewn perthynas â'r gwariant a nodir yn y datganiad hwn;
- bod trefniadau monitro wedi bod ar waith i sicrhau bod y prosiect wedi cael ei weithredu yn unol â'r cofnod ar unrhyw gynllun cyflawni y cytunwyd arno.

Rwyf wedi atodi adroddiad amodi sy'n amlinellu'r rhesymau pam na allaf ardystio'r uchod.

[redacted]

[redacted]

Llofnod: .....

Dyddiad: .....

Swydd: Prif Swyddog Cyllid / Cyfarwyddwr Cyllid (dilëwch fel y bo'n briodol)

[redacted]

[redacted]

ATODLEN 6

Nid yw hwn yn berthnasol.

[redacted]

ATODLEN 7

Gofynion GDPR y DU
Rhan 1

Bydd yn ofynnol prosesu Data Personol ar ein rhan i ymgymryd â'r Dibenion. Ni fydd y Rheolydd Data ac mae'r tabl isod yn rhoi manylion y gweithgarwch prosesu a ganiateir sydd i'w gynnal wrth ymgymryd â'r Dibenion.

Rhaid ichi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig pellach gennym ni mewn perthynas â phrosesu ar ein rhan. Caiff unrhyw gyfarwyddiadau pellach o'r fath eu cynnwys yn y tabl:

Disgrifiad	**Manylion**
Sail Gyfreithiol dros y Gweithgarwch Prosesu	Mae prosesu'n ofynnol yn unol â'n tasg gyhoeddus ac â'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i ni i roi cymorth ariannol ar ffurf grant i gefnogi amcanion y gweinidogion, i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych hi. Mae prosesu o'r fath yn ofyn hefyd pan fyddwch yn gofyn am arian y grant a bydd yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys am y grant.
Pwnc y Gweithgarwch Prosesu	Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi grant i awdurdodau rheoli perygl llifogydd er mwyn lleihau'r peryglon a achosir gan lifogydd a/neu erydu arfordirol.
Hyd y Gweithgarwch Prosesu	Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'ch gwybodaeth bersonol am saith i ddeng mlynedd gan ddibynnu ar natur y grant ar ôl cwblhau'ch grant, hynny yn unol â'r polisi ar gadw data.
Lleoliad y Gweithgarwch Prosesu	Rhaid i'r data gael eu prosesu yn y Deyrnas Unedig ac ni chaniateir eu trosglwyddo y tu allan i'r DU oni bai y gwneir hynny yn unol ag Amod 2.6.6.
Natur y Gweithgarwch Prosesu	Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth i'ch cadw fel pwynt cyswllt i weinyddu'ch cais am grant. Hefyd, gallwn ni ac asiantaethau atal twyll, ddefnyddio'r wybodaeth hon, gan gynnwys eich data personol, i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Gallwn ni ac asiantaethau atal twyll ganiatáu i asiantaethau gorfodi'r gyfraith weld a defnyddio'ch data personol i

[redacted]

[redacted]

	ymchwilio i drosedd, ei datrys a'i hatal.
Dibenion y Gweithgarwch Prosesu	I atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych hi. Mae prosesu o'r fath yn ofyn hefyd pan fyddwch yn gofyn am arian y grant a bydd yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys am y grant.
Y Mathau o Ddata Personol a gaiff eu Prosesu	-enw -cyfeiriad eich swyddfa a hanes cyfeiriad eich swyddfa -manylion cysylltu â'ch sefydliad megis cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn -manylion sefydliad trydydd parti
Categorïau'r Testunau Data	Staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr, asiantwyr a gweithwyr dros dro), cwsmeriaid/cleientiaid, cyflenwyr.
Cynllun ar gyfer dychwelyd y data a/neu eu dinistrio unwaith y cwblheir y gweithgarwch prosesu ONID yw'n ofynnol yn ôl y Gyfraith i gadw'r math hwnnw o ddata	Bydd Llywodraeth Cymru'n cadw'ch gwybodaeth bersonol am saith i ddeng mlynedd gan ddibynnu ar natur y grant ar ôl cwblhau'ch grant, hynny yn unol â'r polisi ar gadw data. Caiff asiantaethau atal twyll gadw'ch data personol am gyfnodau gwahanol o amser, gan ddibynnu ar sut y caiff y data eu defnyddio. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth. Os bernir eich bod yn risg o ran twyll neu wyngalchu arian, gallai asiantaethau atal twyll gadw'ch data am hyd at 6 mlynedd ar ôl eu derbyn.

[redacted]

[redacted]

Rhan 2

1. Bydd y diffiniadau o’r termau a ganlyn yn cael eu defnyddio yn yr Atodlen hon am GDPR y DU:

Digwyddiad Diogelwch Data	unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain, neu a allai arwain, at fynediad diawdurdod at Ddata Personol yr ydych yn eu cadw o dan y Dyfarniad Cyllid, a/neu at golli a/neu ddinistrio, neu at y posibilrwydd o golli a/neu ddinistrio Data Personol yn groes i’r Dyfarniad Cyllid hwn, gan gynnwys unrhyw achos o Dor Diogelwch Data Personol (fel y'i diffinnir yn GDPR y DU);
Asesiad Effaith Diogelu Data	asesiad gan y Rheolydd o effaith y gweithgarwch Prosesu a ragwelir ar ddiogelu Data Personol;
Deddfwriaeth Diogelu Data	yr holl ddeddfwriaeth gymwys ar ddiogelu data a phreifatrwydd sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys GDPR y DU; Deddf Diogelu Data 2018 (a rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno); Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd; a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd ac sy'n gymwys i barti;
Cais am fynediad at ddata gan y testun	cais a wneir gan neu ar ran Testun Data yn unol â hawliau a roddwyd o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad at ei Ddata Personol;
DPA 2018	Deddf Diogelu Data 2018;
GDPR y DU	Rheoliad (EU) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Ebrill 2016 ar ddiogelu personau naturiol o ran prosesu data personol ac ar symud data o’r fath yn rhydd fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy rinwedd adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018;
Y Gyfraith	sef: (a) unrhyw statud neu broclamasiwn cymwys neu unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth; (b) unrhyw ganllawiau, cod ymarfer, cyfarwyddyd neu benderfyniad cymwys yr ydym ni a/neu yr ydych chi yn rhwym i gydymffurfio â hwy i'r graddau y cânt eu cyhoeddi a'u bod ar gael i'r cyhoedd neu yr ydym ni wedi eich hysbysu chi am eu bodolaeth neu am eu cynnwys; ac

[redacted]

[redacted]

	(c) unrhyw ddyfarniad neu orchymyn cymwys a wneir/a roddir gan lys barn perthnasol ac sy'n gynsail rwymol yng Nghymru a Lloegr; ym mhob achos, mewn grym neu'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu yng Nghymru yn unig;
Parti	ni neu chi, neu, gyda'i gilydd, '**y Partïon**';
Mesurau Diogelu	mesurau technegol a sefydliadol priodol a all gynnwys gwneud Data Personol yn ddienw neu eu hamgryptio, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch systemau a gwasanaethau, sicrhau bod Data Personol ar gael, a'i bod yn bosibl cael mynediad atynt, unwaith eto mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, a mynd ati'n rheolaidd i asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a fabwysiedir ganddo;
Is-brosesydd	unrhyw drydydd parti a benodir i Brosesu Data Personol ar eich rhan mewn perthynas â'r Dyfarniad Cyllid;

2. DIOGELU DATA PERSONOL

2.1 Yn yr Atodlen hon am GDPR y DU, bydd i'r termau a ganlyn yr ystyr a roddir iddynt yn GDPR y DU: **Rheolydd ("Controller")**, **Prosesydd ("Processor")**, **Testun Data ("Data Subject")**, **Data Personol ("Personal Data")**, **Prosesu ("Process")**, **Tor Diogelwch Data Personol ("Personal Data Breach")**, **Swyddog Diogelu Data ("Data Protection Officer")**.

2.2 Mae'r Partïon yn cydnabod, at ddibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mai ni yw'r Rheolydd a chi yw'r Prosesydd.

2.3 Oni bai ei bod yn ofynnol fel arall yn unol â'r Gyfraith ichi wneud hynny (ac os ydyw, byddwch yn ein hysbysu am y gofyniad cyfreithiol hwnnw cyn Prosesu, oni bai bod y gyfraith yn gwahardd gwybodaeth o'r fath ar sail bwysig er budd y cyhoedd), mae'r unig weithgarwch Prosesu Data Personol yr ydych chi wedi eich awdurdodi i ymgymryd ag ef yn cael ei ddisgrifio yn yr Atodlen hon am GDPR y DU neu mae'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gennym ni ac ni chewch chi wneud y penderfyniad. Ni fyddwch yn prosesu'r Data Personol at unrhyw ddiben arall nac mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r Dyfarniad Cyllid hwn neu'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rhaid ichi gydymffurfio'n brydlon â chyfarwyddiadau ysgrifenedig gennym ni sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ddiwygio, trosglwyddo, dileu neu brosesu'r Data Personol fel arall, neu i atal, lliniaru neu unioni unrhyw brosesu nad yw wedi'i awdurdodi.

2.4 Rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith os ydych o'r farn bod unrhyw gyfarwyddiadau a roddwn yn groes i'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

2.5 Rhaid ichi roi pob cymorth rhesymol inni mewn perthynas ag unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a gynhelir cyn ac ar ôl

[redacted] [redacted]

dechrau unrhyw weithgarwch Prosesu. Gall cymorth o'r fath, yn ôl ein disgresiwn, gynnwys:

2.5.1 disgrifiad systematig o'r gweithrediadau Prosesu a ragwelir a diben y Prosesu;

2.5.2 asesiad o'r angen am y gweithrediadau Prosesu a'u cymesuredd mewn perthynas â'r Dibenion;

2.5.3 asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid Testunau Data; a

2.5.4 disgrifiad systematig o'r mesurau a ragwelir er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys camau diogelu, mesurau diogelwch a ffyrdd o sicrhau diogelwch Data Personol.

2.6 Mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a Brosesir mewn cysylltiad â'ch rhwymedigaethau o dan y Dyfarniad Cyllid rhaid ichi:

2.6.1 prosesu'r Data Personol hynny yn unol ag Amod 2.3 o'r Atodlen hon am GDPR y DU, ac fel hynny yn unig, oni fydd yn ofynnol yn ôl y Gyfraith ichi wneud hynny fel arall. Os yw'n ofynnol ichi wneud hynny, rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith cyn Prosesu'r Data Personol onid yw'r Gyfraith yn eich gwahardd rhag gwneud hynny;

2.6.2 sicrhau bod gennych Fesurau Diogelu, a adolygwyd ac a gymeradwywyd gennym fel sy'n briodol, i ddiogelu rhag Digwyddiad Diogelwch Data, gan ystyried:

(i) natur y data sydd i'w diogelu;
(ii) y niwed y gallai Digwyddiad Diogelwch Data ei wneud;
(iii) datblygiadau technolegol; a
(iv) cost gweithredu unrhyw fesurau;

2.6.3 rhaid ichi, pan fo'n ofynnol o dan y Dyfarniad Cyllid ichi hysbysu Testunau Data am ddiben a manylion y gweithgarwch Prosesu y bwriedir ei wneud, gydweithio â ni i gytuno ar hysbysiad priodol sy'n cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rhaid i'r hysbysiad gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gennym ymlaen llaw. Rhaid ichi beidio ag addasu na newid yr hysbysiad mewn unrhyw ffordd heb gael ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw;

2.6.4 sicrhau nad yw eich Personél yn Prosesu Data Personol ac eithrio yn unol â'r Dyfarniad Cyllid;

2.6.5 sicrhau eich bod yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw un neu ragor o'ch Personél sydd â mynediad at Ddata Personol yn ddibynadwy ac yn onest a sicrhau eu bod:

[redacted] [redacted]

(i) yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau a'u bod yn cydymffurfio â hwy;
(ii) yn ddarostyngedig i ymrwymiadau priodol o ran cyfrinachedd gyda chi neu unrhyw Is-brosesydd;
(iii) yn cael eu hysbysu am natur gyfrinachol y Data Personol ac nad ydynt yn cyhoeddi, yn datgelu nac yn dadlennu unrhyw Ddata Personol i unrhyw drydydd parti oni bai eu bod yn cael cyfarwyddyd ysgrifenedig gennym i wneud hynny neu fel y caniateir fel arall o dan y Dyfarniad Cyllid; a
(iv) wedi cael hyfforddiant digonol ar sut i ddefnyddio, diogelu a thrin Data Personol, a gofalu amdanynt;

2.6.6 peidio â throsglwyddo Data Personol y tu allan i'r DU heb gael ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw neu pan fo Erthygl 28(3)(a) o GDPR y DU yn gymwys;

2.6.7 Yn unol â chyfarwyddyd ysgrifenedig a roddir gennym, dileu neu ddychwelyd Data Personol (ac unrhyw gopïau ohonynt) atom pan fydd y Dyfarniad Cyllid yn dod i ben onid yw'n ofynnol yn ôl y Gyfraith ichi gadw'r Data Personol.

2.7 Yn ddarostyngedig i Amod 2.8, rhaid ichi ein hysbysu ar unwaith os byddwch, mewn cysylltiad â'r Dyfarniad Cyllid:

2.7.1 yn cael Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (neu Gais honedig am Fynediad at Ddata gan y Testun);

2.7.2 yn cael cais i gywiro unrhyw Ddata Personol, i'w hatal rhag cael eu prosesu neu i'w dileu;

2.7.3 yn cael unrhyw gais, cwyn neu gyfathrebiad arall sy'n ymwneud â rhwymedigaethau'r naill Barti neu'r llall o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

2.7.4 yn cael unrhyw gyfathrebiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn cysylltiad â Data Personol a Brosesir o dan y Dyfarniad Cyllid;

2.7.5 yn cael cais gan unrhyw drydydd parti i ddatgelu Data Personol pan fo cydymffurfio â chais o'r fath yn ofynnol yn ôl y Gyfraith neu yr honnir bod hynny'n ofynnol yn ôl y Gyfraith;

2.7.6 yn dod i wybod am Ddigwyddiad Diogelwch Data.

2.8 Mae eich rhwymedigaeth i hysbysu o dan Amod 2.7 o'r Atodlen hon am GDPR y DU yn cynnwys darparu rhagor o wybodaeth inni o bryd i'w gilydd, heb oedi gormodol, wrth i fanylion ddod ar gael.

[redacted] [redacted]

2.9 Gan ystyried natur y gweithgarwch Prosesu, rhaid ichi roi cymorth llawn inni mewn perthynas â rhwymedigaethau'r naill Barti neu'r llall o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac mewn perthynas ag unrhyw gŵyn, cyfathrebiad neu gais a wneir o dan Amod 2.7 o'r Atodlen hon am GDPR y DU (ac i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn yr amserlenni a fydd yn rhesymol ofynnol gennym) gan gynnwys rhoi inni'n brydlon yr hyn a ganlyn:

2.9.1 manylion llawn a chopïau o'r gŵyn, y cyfathrebiad neu'r cais;

2.9.2 unrhyw gymorth y gallwn yn rhesymol ofyn amdano er mwyn inni allu cydymffurfio â Chais am Fynediad at Ddata gan y Testun o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

2.9.3 ar ôl inni wneud cais, unrhyw Ddata Personol yr ydych yn eu cadw mewn perthynas â Thestun Data;

2.9.4 cymorth y gallwn yn rhesymol ofyn amdano ar ôl unrhyw Ddigwyddiad Diogelwch Data;

2.9.5 cymorth y gallwn yn rhesymol ofyn amdano mewn perthynas ag unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu mewn perthynas ag unrhyw ymgynghoriad rhyngom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.10 Rhaid ichi gadw cofnodion a gwybodaeth lawn a chywir i ddangos eich bod yn cydymffurfio ag Amod 2 o'r Atodlen hon am GDPR y DU. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fyddwch yn cyflogi llai na 250 o aelodau o staff oni bai:

2.10.1 ein bod yn penderfynu nad yw'r gweithgarwch Prosesu yn achlysurol; neu

2.10.2 ein bod yn penderfynu bod y gweithgarwch Prosesu yn cynnwys categorïau arbennig o ddata y cyfeirir atynt yn Erthygl 9(1) o GDPR y DU neu Ddata Personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10 o GDPR y DU; neu

2.10.3 ein bod yn penderfynu bod y gweithgarwch Prosesu yn debygol o beryglu hawliau a rhyddid Testunau Data.

2.11 Rhaid ichi ddarparu ar gyfer archwiliadau gennym ni neu ein harchwilydd dynodedig o'ch gweithgarwch Prosesu Data.

2.12 Rhaid ichi ddynodi swyddog diogelu data os yw'n ofynnol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

2.13 Cyn caniatáu i unrhyw Is-brosesydd brosesu unrhyw Ddata Personol yn gysylltiedig â'r Dyfarniad Cyllid, rhaid ichi:

[redacted] [redacted]

2.13.1 ein hysbysu'n ysgrifenedig am yr Is-brosesydd a'r gweithgarwch Prosesu arfaethedig;

2.13.2 cael ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw;

2.13.2 ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig â'r Is-brosesydd sy'n rhoi effaith i'r telerau a nodir yn Amod 2 o'r Atodlen hon am GDPR y DU fel y maent yn gymwys i'r Is-brosesydd; a

2.13.3 rhoi inni'r cyfryw wybodaeth ynglŷn â'r Is-brosesydd ag y gallwn yn rhesymol ofyn amdani.

2.14 Byddwch yn parhau'n gwbl atebol am bob gweithred neu anweithred gan Is-brosesydd.

2.15 Ar unrhyw adeg a chan roi o leiaf 30 Diwrnod Busnes o rybudd, cawn adolygu'r Amod 2 hwn o'r Atodlen 7 hon am GDPR y DU drwy roi yn ei le unrhyw gymalau rheolydd i brosesydd safonol cymwys neu delerau tebyg sy'n rhan o gynllun ardystio cymwys (a fydd yn gymwys pan y'u hymgorfforir drwy eu hatodi i'r Dyfarniad Cyllid).

2.16 Mae'r Partïon yn cytuno i ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw ganllawiau eraill pan fo hynny'n briodol. Ar ôl rhoi o leiaf 30 Diwrnod Busnes o rybudd ichi, cawn ddiwygio'r Dyfarniad Cyllid er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.17 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd dim yn y Dyfarniad Cyllid yn eich rhyddhau o'ch cyfrifoldebau a'ch atebolrwyddau uniongyrchol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

2.18 Yr ydych yn cytuno i'n hindemnio ac i barhau i'n hindemnio rhag unrhyw hawliadau ac achosion ac unrhyw atebolrwydd, colled, costau a threuliau a ddaw i'n rhan o ganlyniad i unrhyw hawliad a wneir neu a ddygir gan unrhyw unigolyn neu berson cyfreithiol arall mewn perthynas ag unrhyw golled, niwed neu drallod a achosir i'r unigolyn neu'r person cyfreithiol hwnnw o ganlyniad i weithgarwch prosesu gennych sydd heb ei awdurdodi, o ganlyniad i weithgarwch prosesu sy'n anghyfreithlon, o ganlyniad i ddifrod a/neu niwed i unrhyw broses Data Personol a wneir gennych chi, eich cyflogeion neu'ch asiantiaid wrth gyflawni'r Dyfarniad Cyllid neu fel y cytunir fel arall rhwng y Partïon.

2.19 Bydd darpariaethau'r Amod 2 hwn o'r Atodlen hon am GDPR y DU yn gymwys tra pery'r Dyfarniad Cyllid ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben.

[redacted] [redacted]

Atodlen 8

Rheoli Cymorthdaliadau

Nid yw hwn yn berthnasol.

[redacted]

[redacted]